***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1201 (Cy. 246) (C. 92)

# GWASANAETHAU IECHYD, CYMRU
# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cyflenwadau Meddygol Gwasanaethau Iechyd (Costau) 2017 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 11.43 a.m. ar 18 Tachwedd 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 12(2) o Ddeddf Cyflenwadau Meddygol Gwasanaethau Iechyd (Costau) 2017(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cyflenwadau Meddygol Gwasanaethau Iechyd (Costau) 2017 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022.

### Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 21 Tachwedd 2022

**2.** Daw adran 2 o Ddeddf Cyflenwadau Meddygol Gwasanaethau Iechyd (Costau) 2017 i rym ar 21 Tachwedd 2022.

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Am 11.43 a.m. ar 18 Tachwedd 2022

(**1**) 2017 p. 23.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn a wneir gan Weinidogion Cymru yn dwyn i rym adran 2 o Ddeddf Cyflenwadau Meddygol Gwasanaethau Iechyd (Costau) 2017 ("y Ddeddf") ar 21 Tachwedd 2022. Mae adran 2 yn diwygio adran 88 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae adran 88 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â phennu tâl ar gyfer personau sy'n darparu gwasanaethau fferyllol. Mae'r diwygiadau a wneir gan adran 2 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch tâl am wasanaethau fferyllol yn benodol o ran cynhyrchion meddyginiaethol arbennig.